
# Dilyniannu genom cyfan ar gyfer anhwylder prin




Mae'r daflen hon ar gyfer cleifion sy'n cael cynnig prawf **dilyniannu genom cyfan** ar gyfer anhwylderau prin neu anhwylderau etifeddol.

Mae Dilyniannu Genom Cyfan yn broses lle mae meddyg yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i adeiladu a chynnal eich corff.




Mae'r GIG yn cynnig Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer cyflyrau lle gall helpu i wella gofal cleifion.



Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi cyn i chi benderfynu cael y prawf ai peidio.

## Beth yw eich genom?




Eich genom yw'r wybodaeth sydd ei hangen i adeiladu'r corff dynol a'i gadw'n iach.

Mae wedi'i ysgrifennu mewn cod o'r enw **DNA**.



Mae eich genom yn cynnwys miloedd o segmentau o DNA. Gelwir y rhain yn **genynnau**.

Mae llawer o glefydau prin yn cael eu hachosi gan newidiadau yn eich genynnau, a gellir eu hetifeddu.

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.



## Beth all prawf Dilyniannu Genom Cyfan ei ddweud wrthych?

Yn wahanol i brofion genetig eraill sy'n edrych ar ychydig o enynnau yn unig, mae dilyniannu genom cyfan yn edrych ar eich holl enynnau ar yr un pryd.

Er bod y prawf hwn yn edrych ar eich genom cyfan, mae'n canolbwyntio ar newidiadau mewn genynnau sy'n gysylltiedig â'ch cyflwr; nid yw'n chwilio am newidiadau mewn genynnau sy'n achosi cyflyrau eraill.



Efallai y bydd canlyniad eich prawf Dilyniannu Genom Cyfan yn helpu i:

- wneud diagnosis o'ch cyflwr
- awgrymu'r driniaeth orau
- dweud wrthych os ydych dan risg uwch o gael cyflwr
- dweud wrthych a allai aelodau o'ch teulu hefyd fod dan risg uwch o gael cyflwr neu a ellid ei drosglwyddo i'ch plant.



Os felly, gellir cynnig profion i aelodau eraill o'r teulu. Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn siarad am hyn gyda chi.



## Beth sy'n digwydd mewn prawf Dilyniannu Genom Cyfan?

Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn esbonio'r prawf.

Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn mynd drwy'r camau hyn:



### Atgyfeiriad

Cewch eich trosglwyddo i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a fydd yn cael gwybod rhagor am eich cyflwr.

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.

## Ymgynghoriad



Byddwch yn cwrdd â meddyg arbenigol.

Os yw'n argymell Dilyniannu Genom Cyfan, bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn dweud wrthych am y prawf

## Casglu sampl



Os byddwch yn penderfynu cael y prawf, cymerir sampl gwaed a'i hanfon i labordy.

## Canlyniadau




Cewch wybod beth mae'r canlyniad yn ei ddangos.

Gallwch siarad am y prawf gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gallwch gwrdd ag arbenigwr a fydd yn siarad â chi am eich canlyniadau ac yn gallu cynnig cefnogaeth i chi.




Mae'n aml yn ddefnyddiol cymharu eich genynnau ag aelodau eraill o'r teulu. Gall hyn helpu i ddweud y gwahaniaeth rhwng newidiadau sy'n achosi problemau a'r rhai nad ydynt yn achosi problemau

Gall eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol esbonio pa aelodau o'r teulu y dylid eu profi.



Os byddwch yn penderfynu **peidio** â chael prawf Dilyniannu Genom Cyfan, byddwch yn dal i gael y gofal iechyd gorau.

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r ferswn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.




## Cael eich canlyniadau

Bydd eich sampl yn cael ei chymryd a'i gwirio. Anfonir y canlyniadau at eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Bydd yn trafod gyda chi a yw eich prawf Dilyniannu Genom Cyfan:



- Yn dangos newid sy'n esbonio eich cyflwr meddygol. Gallai hyn effeithio ar eich triniaeth a dweud wrth aelodau'r teulu am eu risg o ddatblygu problemau.

- Yn dangos newid a allai esbonio eich cyflwr meddygol, ond mae angen mwy o brofion.

  Gallai hyn olygu profi aelodau eraill o'r teulu neu gymharu eich newid â chleifion eraill.



- Yn dangos newid yn eich genynnau nad ydym yn eu deall.



- Heb ddod o hyd i achos eich cyflwr meddygol.

- Yn dangos newid annisgwyl yn eich genom nad yw'n gysylltiedig â'ch cyflwr, a allai effeithio ar eich iechyd chi neu aelodau o'ch teulu.

## Data Am Eich Genynnau



Cedwir yr holl ddata yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Defnyddir eich data yn unol â chyfraith y DU a pholisi'r GIG.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
https://www.england.nhs.uk/contact-us/privacy-notice/

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.



Caiff data eich prawf a'ch canlyniadau eu storio mewn cronfa ddata ddiogel ar gyfer Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG – y rhan o'r GIG sy'n goruchwylio Dilyniannu Genom cyfan.

Dim ond staff sydd wedi'u cymeradwyo sy'n gweld eich data.




## Defnyddio data ar gyfer yswiriant

Ni chaiff data eu rhannu â chwmnïau yswiriant heb i chi gytuno. Efallai y bydd cwmnïau yswiriant yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth feddygol amdanoch chi a'ch teulu.



## Defnyddio data at ddibenion ymchwil

Mae data iechyd a gyfrannwyd gan filiynau o gleifion eraill y GIG wedi helpu i ddatblygu'r triniaethau y mae cleifion yn eu cael heddiw.

Mae gan bob claf yr opsiwn i roi eu data i Lyfrgell fel y gall ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo ddefnyddio'r data hynny.



Os byddwch yn dewis gwneud hyn, bydd eich data yn helpu ymchwilwyr i ddatblygu triniaethau newydd.

I gael gwybod rhagor am sut y gall eich data genomig helpu ymchwil, ewch i wefan Genomeg Lloegr yn:
[http://www.genomicsengland.co.uk](http://www.genomicsengland.co.uk).

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.

## Gwybodaeth bellach

Dysgwch ragor am Ddilyniannu Genom cyfan gan y sefydliadau hyn:

[http://www.nhs.uk/conditions/genetic-and-genomic-testing](http://www.nhs.uk/conditions/genetic-and-genomic-testing)

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Clefydau Prin, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud WGS yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.